

Yr Adran Addysg, Llywodraeth Cymru

Datganiad Preifatrwydd

Mae'r Adran Addysg, sy'n rhan o Lywodraeth Cymru, yn trefnu digwyddiad i'n helpu gyda'r gwaith yr ydym yn ei wneud.

Beth bynnag fo diben y digwyddiad, bydd arnom angen eich data personol os byddwch yn bresennol. Bydd hyn yn cynnwys eich enw, eich manylion cyswllt, manylion eich sefydliad, gofynion deietegol, ac os yw'r lleoliad yn darparu parcio mynediad a reolir, yna bydd angen rhif cofrestru eich car. Byddwn yn defnyddio eich manylion cyswllt i anfon gwybodaeth atoch am y digwyddiad, ac efallai y byddwn yn cysylltu â chi eto ar ôl y digwyddiad i anfon deunyddiau perthnasol.

Mewn rhai achosion rydym yn defnyddio trydydd parti i drefnu ein digwyddiadau. Mae ein contractau'n nodi gofynion penodol ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Byddwn yn defnyddio Cazbah i reoli'r digwyddiad hwn. Bydd yn ofynnol iddynt gael y manylion canlynol: eich enw, eich cyfeiriad e-bost, a'r ysgol neu'r lleoliad yr ydych yn dod ohono. Bydd angen iddynt hefyd nodi unrhyw ofynion deietegol neu anghenion o ran hygyrchedd.

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol am ddim mwy na 12 mis ar ôl y digwyddiad hwn, gan ddefnyddio adborth fel sail i ddigwyddiadau yn y dyfodol. Os byddwn eisiau defnyddio eich data personol am unrhyw reswm arall ar wahân i anfon gwybodaeth / deunyddiau / ffurflenni gwerthuso mewn perthynas â'r digwyddiad hwn, byddwn yn gofyn ichi am eich caniatâd.

Bydd y digwyddiad hwn yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb a'i ffrydio'n fyw ar-lein.

Drwy gofrestru ar gyfer y digwyddiad hwn a chymryd rhan ynddo, rydych yn cydnabod y gall y digwyddiad gael ei ffotograffu, ei recordio a'i ffrydio'n fyw. Bydd y ffrwd fyw yn canolbwyntio ar y siaradwyr a'r cyflwynwyr, ond gall hefyd gynnwys aelodau o'r gynulleidfa sy'n gofyn cwestiynau, yn ogystal â gweithgareddau cyffredinol yn ystod y digwyddiad. Mae hefyd yn bosibl y bydd recordiad o'r digwyddiad yn cael ei gadw a'i wneud ar gael ar ôl hynny at ddibenion addysgol, hyrwyddo neu wybodaeth.

Bydd eich data personol yn cael eu prosesu at ddibenion trefnu a chynnal y digwyddiad, rheoli presenoldeb, hwyluso cyfranogiad ar-lein a sicrhau mynediad at gynnwys y digwyddiad. Caiff y prosesu hwn ei wneud yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol.

Gallai unrhyw ffilmiau neu ddelweddau gael eu defnyddio i helpu i hyrwyddo gwaith Llywodraeth Cymru yn fewnol a/neu'n allanol. Gall hyn gynnwys ffilmiau hyrwyddo, posteri, taflenni, llyfrynau, adroddiadau, baneri, y fewnwyd, gwefan, y cyfryngau

cymdeithasol a defnydd marchnata er enghraifft. Nid yw'r rhestr hon yn cynnwys pob un dim.

Os ydych yn bresennol yn y digwyddiad yn bersonol ac nad ydych yn dymuno ymddangos mewn unrhyw ffotograffau neu recordiadau, rhowch wybod i aelod o dîm y digwyddiad wrth gyrraedd. Er y gwneir pob ymdrech resymol i barchu ceisiadau o'r fath, efallai na fydd bob amser yn bosibl osgoi cynnwys unigolion yn ddamweiniol mewn lluniau neu recordiadau ehangach o'r gynulleidfa neu'r dorf.

Os ydych yn cymryd rhan ar lein, gall unrhyw sylwadau, cwestiynau neu gyfraniadau a wnewch yn ystod y frwd fyw fod yn weladwy i gyfranogwyr eraill.

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am weld yr wybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Gallai aelod arall o'r cyhoedd ofyn am gael gweld yr wybodaeth a roddwch fel rhan o gais rhyddid gwybodaeth. Byddem yn cysylltu â chi cyn cynnwys eich gwybodaeth mewn ymateb i unrhyw gais.

O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), mae hawliau gennych fel unigolyn, a gallwch eu harfer mewn perthynas â'r wybodaeth yr ydym yn ei chadw amdanoch. Mae'r rhain yn cynnwys:

- yr hawl i weld copi o'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn eich data personol;
- yr hawl i wrthwynebu unrhyw weithgarwch prosesu sy'n debygol o arwain at niwed neu ofid, neu sydd eisoes yn gwneud hynny;
- yr hawl i sicrhau na chaiff eich gwybodaeth ei phrosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol;
- yr hawl i wrthwynebu penderfyniadau a wneir drwy ddulliau awtomatig;
- yr hawl, o dan amgylchiadau penodol, i fynnu bod unrhyw ddata personol sy'n anghywir yn cael eu cywiro, eu hatal, eu dileu neu eu dinistrio;
- yr hawl i wneud cais am iawndal am unrhyw ddifrod a achosir o ganlyniad i dorri'r ddeddf.

Gallwch [ddarllen rhagor am yr hawliau hyn yma](#).

Commented [JM1]: Hyperlink to Welsh page: [l'r cyhoedd | ICO](#)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

Rhif ffôn: 0303 123 1113 neu 01625 545 745

Gwefan: ico.org.uk

I gael rhagor o wybodaeth am y manylion y mae Llywodraeth Cymru yn eu cadw ac yn eu defnyddio, neu os ydych yn dymuno arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: LocalTaxationPolicy@llyw.cymru

Y Swyddog Diogelu Data

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru